CREU MENTER CREATING ENTERPRISE

SWYDD-DDISGRIFIAD

1. MANYLION Y SWYDD

TEITL Y SWYDD	Rheolwr Datblygu Busnes – Academi Mentrau Cymdeithasol - Cymru
YN ATEBOL I'R	Cyfarwyddwr Busnes a Phartneriaeth
ATEBOL YN UNIONGYRCHOL	Neb
LLEOLIAD	Mochdre, Conwy, Gogledd Cymru
MANYLION CYFLOG	£32,000 - contract tymor sefydlog 3 blynedd 37 awr yr wythnos

2. PWRPAS

Mae'r Academi Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru yn rhan o fasnachfraint fyd-eang a bydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2019. Bydd Creu Menter yn dal y drwydded gymdeithasol i Gymru a bydd yn gweithredu ar draws chwe sir Gogledd Cymru gyda'u partner strategol Canolfan Cydweithredol Cymru sy'n gweithredu ar draws yr un ar bymtheg o weddill siroedd Cymru.

Mae'r Academi Mentrau Cymdeithasol yn darparu rhaglenni dysgu a datblygu (Arweinyddiaeth, Menter, Dysgu ac Effaith Gymdeithasol) i'r sector mentrau cymdeithasol, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus sy'n arwain at fwy o wydnwch a thwf ymysg unigolion a sefydliadau ar bob cam datblygu. www.socialenterprise.academy (Am fwy o wybodaeth ewch i'r wefan).

Byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Busnes a Phartneriaeth i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros sefydlu, rheoli, datblygu a thyfu Academi Gogledd Cymru.

Gweithredu strategaethau allweddol a chwrdd â thargedau fel y'u nodir yn y Cynllun Busnes.

Cymryd rhan allweddol wrth arwain ar werthu a datblygu busnes newydd a dychwelol i'r Academi ar draws Gogledd Cymru.

Gweithio gydag Hwyluswyr i ysgogi ac ymateb i'r galw am gynhyrchion yr Academi gan sicrhau bod rhaglenni'n cwrdd ag anghenion cleientiaid a chontractau.

3. BETH YW CREU MENTER

Sefydlwyd Creu Menter ym mis Ebrill 2015 ac mae'n is-gwmni sy'n eiddo i Gymdeithas Tai Cartrefi Conwy.

Mae dau brif faes gweithredol o fewn Creu Menter:

- Mae ochr fasnachol y sefydliad yn cynnwys gwasanaethau EIDDO

- Mae ein Hacademi Gyflogaeth yn cwmpasu gwasanaethau POBL

Mae ein gwasanaethau eiddo yn cynnwys paentio ac addurno, ffensio, cynnal a chadw a rheoli cyfleusterau ar gyfer eiddo Cartrefi Conwy - ond hefyd i gleientiaid eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae ein Hacademi Gyflogaeth yn darparu cyfleoedd i bobl leol ddi-waith gael gwaith cyflogedig gyda hyfforddiant yn y gwaith, cymorth cyflogaeth a chymwysterau.

4. PRIF GYFRIFOLDEBAU

Datblygu Strategol
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn adeiladu ac yn cynnal partneriaethau â rhanddeiliaid allweddol yn y sector mentrau cymdeithasol, y trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector tai er mwyn sicrhau twf a datblygiad yr Academi.

Byddant yn dylunio ac arwain ar weithredu strategaeth datblygu marchnad a marchnata, gan archwilio cyfleoedd ar gyfer marchnadoedd newydd ledled Gogledd Cymru.

Gweithio'n agos â Rheolwr Datblygu Busnes Canolfan Cydweithredol Cymru yn Ne Cymru.

Gweithio gyda'r Swyddog Cyfathrebu a Marchnata i ddylunio a gweithredu'r strategaeth Cyfathrebu a marchnata.

Cydweithio'n agos â Thîm Rhyngwladol yr Academi Menter Gymdeithasol yn yr Alban a chymryd rhan yn yr ecosystem ddysgu fyd-eang.

Datblygu Busnes, Gwerthu a Marchnata
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn adeiladu ac yn cynnal perthnasau â chwaraewyr cenedlaethol allweddol a lleol yn y sector mentrau cymdeithasol, y trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector tai er mwyn sicrhau twf a datblygiad yr Academi.

Gwerthu cynhyrchion yr Academi ar draws marchnadoedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes ledled Gogledd Cymru.

Sicrhau bod yr holl dargedau ariannol a DPA yn cael eu bodloni yn unol â'r Cynllun Busnes.

Rheoli prosiectau strategol a phenodol ar raddfa fawr, mentrau a chyflwyno rhaglenni fel y bo'n briodol i gynhyrchu refeniw newydd.

Mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Busnes a Phartneriaeth, nodi ac ysgrifennu cynigion, bidiau a thendrau o ansawdd uchel yn ôl yr angen.

Cynrychioli a rhoi cyflwyniadau ar ran yr Academi mewn digwyddiadau a chynadleddau.

Gweithio gyda'r Swyddog Cyfathrebu a Marchnata i nodi a dylunio deunydd marchnata priodol ar gyfer yr Academi, gan gynnwys deunyddiau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol.

Cynhyrchu dyddiadur o raglenni dysgu bob blwyddyn yn unol â'r cynllun busnes.

Datrysiadau Dysgu a Datblygu
Cefnogi datrysiadau dysgu a datblygu creadigol gyda chleientiaid mewn cydweithrediad â hwyluswyr profiadol a chymorth craidd yn yr Alban

Sicrhau bod digon o Hwyluswyr cymwys ar draws Gogledd Cymru i gyflwyno rhaglenni dysgu mewn ymateb i'r galw ac yn unol â'r cynllun busnes.

Monitro'r gwerthusiad o raglenni pwyso a datblygu i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno i safon uchel gyson ac yn rhagori ar ddisgwyliadau dysgwyr.

Rheoli Canolbwynt
Monitro ac adrodd ar dargedau a chyflawniadau'r Academi i sicrhau bod DPA yn cael eu diwallu'n llwyddiannus.

Goruchwylio'r gyllideb weithredol ac ariannol ar gyfer yr Academi.

Cysylltu â'r Gweinyddwr a goruchwylio pob rhaglen i sicrhau ei fod wedi'i llenwi.

5. CYFRIFOLDEBAU CORFFORAETHOL

Helpu i gyflawni amcanion Creu Menter i ddarparu gwasanaeth ardderchog, arloesol sy'n wirioneddol ganolbwyntio ar gwsmeriaid.

Fel cynrychiolydd Creu Menter, hybu a chynnal agwedd a delwedd gadarnhaol bob amser.

Hyrwyddo gwerthoedd Creu Menter yn gadarnhaol; gan herio ffyrdd traddodiadol o weithio, ymddygiad neu sylwadau croes yn adeiladol.

Sicrhau y ceisir adborth i'w ddefnyddio fel sail ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid a datblygu dulliau mwy effeithiol ac effeithlon o weithio.

Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog, polisïau a gweithdrefnau Creu Menter.

Cefnogi'r gwaith o ddatblygu, adolygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau, yn benodol:

- Mentrau iechyd, diogelwch a lles
- Egwyddorion Creu Menter ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Mentrau rheoli risg
- Arferion rheoli perfformiad

Defnyddio technoleg a systemau TGCh yn effeithiol drwy ddatblygu sgiliau priodol, mabwysiadu prosesau busnes effeithiol a chadw data yn ddiogel a chywir.

Gweithio ar y cyd yn ôl y gofyn.

6. CYD-DESTUN GWAITH (yr amgylchedd, y math o gyfarpar)

Bydd deilydd y swydd yn gweithio mewn swyddfa, ond disgwylir iddynt allu teithio ledled Cymru.

Mae defnydd rheolaidd o systemau TGCh a thechnoleg yn un o ofynion hanfodol y swydd.

7. YMREOLAETH A GWNEUD PENDERFYNIADAU (terfynau a rhyddid)

Mae'r gwaith fel arfer ar eich cyflymder eich hun. Mae gan ddeiliad y swydd yr hyblygrwydd i benderfynu ym mha drefn y caiff y tasgau eu gwneud, serch hynny, disgwylir i bob tasg gael ei chwblhau mewn pryd neu yn ôl y flaenoriaeth a osodwyd.

8. CYFATHREBU (y prif gyfathrebu sy'n digwydd. amlder, pwrpas a dull)

MEWNOL	Rheolwyr, goruchwylwyr a chydweithwyr Creu Menter a Grŵp Cartrefi yn ddyddiol ar e-bost, dros y ffôn, trwy lythyr neu wyneb yn wyneb.
ALLANOL	Amryw o fudd-ddeiliaid, partneriaid allanol a chontractwyr ar e-bost, dros y ffôn, trwy lythyr ac wyneb yn wyneb.

9. MEYSYDD CYMHLETHDOD (beth sy'n ymestyn rhywun fwyaf)

Blaenoriaethu llwyth gwaith prysur a fydd, o bryd i'w gilydd, yn cynnwys blaenoriaethau sy'n cyd-daro. Diwallu anghenion cwmni sy'n datblygu ac yn newid yn barhaus drwy arddangos hyblygrwydd a pharodrwydd i addasu.

10. CYTUNDEB

Llofnod Deilydd y Swydd:	**Dyddiad:**
Llofnod y Rheolwr Atebol:	**Dyddiad:**

APPROVED
THE SOCIAL ENTERPRISE MARK
TRADING FOR PEOPLE AND PLANET

ACADEMI MENTRAU CYMDEITHASOL
SOCIAL ENTERPRISE ACADEMY

Manylion am yr Unigolyn Rheolwr Datblygu Busnes		
GWYBODAETH A PHROFIAD	**Hanfodol / Dymunol**	**Sut y bydd yn cael ei asesu**
Cymhelliant i gyflawni targedau gwerthiant a rhagori ar ddisgwyliadau cwsmeriaid Sgiliau Cymraeg	Hanfodol Dymunol Iawn	Ffurflen Gais / Cyfweliad Ffurflen gais
Hanes llwyddiannus mewn datblygu busnes a thyfu sefydliadau	Hanfodol	Cyfweliad
Sgiliau rheoli pobl ardderchog	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad
Profiad o gyllidebu a chynllunio ariannol	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad
Sgiliau cyfathrebu rhagorol (ar lafar ac yn ysgrifenedig) a sgiliau rhyngbersonol	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad
Hyderus mewn cyflwyno'n effeithiol	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad
Hygrededd mewn cynrychioli'r Academi i gleientiaid a chynulleidfaoedd ar bob lefel	Hanfodol	Cyfweliad
Dealltwriaeth ac ymrwymiad i werthoedd menter gymdeithasol	Hanfodol	Cyfweliad
Sgiliau TG da.	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad
Profiad o ddylunio, darparu a gwerthu rhaglenni dysgu a datblygu	Dymunol	Ffurflen Gais / Cyfweliad

Mae Creu Menter wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein gweithgareddau
Lle bo anabledd yn atal hyn, bydd yn cael ei adolygu gydag ymgeiswyr yn y cam cyfweliad i bennu a oes unrhyw addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud ar gyfer y gofyniad hwn.